



TRWYDDEDU TELEDU BBC

POLISI DIM ANGEN TRWYDDED

Nodyn: Mae Atodiadau I-IV y ddogfen hon wedi cael eu golygu gan fod y wybodaeth wedi'i heithrio o dan adrannau 31(1)(a), (b), (d) a (g) a (2)(a) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith, yn benodol y byddai datgelu, neu y byddai datgelu'n debygol o effeithio ar atal neu ganfod troseddau, dal neu erlyn troseddwy, casglu ffi'r drwydded a gallu'r BBC i gyflawni ei swyddogaethau cyhoeddus mewn perthynas â materion o'r fath. Y rheswm am hyn yw eu bod yn cynnwys gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i bobl sy'n ceisio osgoi talu ffi'r drwydded.

[This page is intentionally blank]

[This page is intentionally blank]

Mynegai

1.	Pwrpas	5
2.	Cwmpas	5
3.	Diffiniadau	5
4.	Egwyddorion Cyffredinol.....	6
5.	Prosesu datganiadau.....	7
6.	Cyfeiriadau ymweld	7
7.	Gwarchodaeth.....	7
8.	Newidiadau mewn Statws Hawliadau Dim Angen Trwydded (gan gynnwys trosglwyddo Hawliad Dim Angen Trwydded i gyfeiriad newydd).....	9
9.	Gweithdrefnau Canfod a Gwarantau Chwilio	10

Atodiad I – (Golygwyd)

Atodiad II – (Golygwyd)

Atodiad III – (Golygwyd)

Atodiad IV – (Golygwyd)

1. **Pwrpas**

- 1.1 Nodi polisi'r BBC mewn perthynas â'r manau hynny, sy'n cael eu meddiannu fel llety preswyl ac eiddo amhreswyl, y mae ei feddiannydd wedi datgan nad oes offer derbyn teledu yn cael ei ddefnyddio yn y cyfeiriad (a elwir yn hawliad Dim Angen Trwydded).
- 1.2 Sylwch fod 'offer derbyn teledu' yn cyfeirio at unrhyw gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio neu ei osod ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy (gweler paragraff 3.0).

2. **Cwmpas**

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn nodi'r weithdrefn ar gyfer:
 - prosesu a chynnal hawliadau Dim Angen Trwydded
 - cysylltu â chyfeiriadau sydd wedi gwneud hawliad Dim Angen Trwydded ac
 - ymweld â chyfeiriadau sydd wedi gwneud hawliad Dim Angen Trwydded
- 2.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i eiddo sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion llety preswyl a threfniadau amhreswyl.

3. **Diffiniadau**

- 3.0 **Gweithgarwch trwyddedadwy** – o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Rheoliadau Cyfathrebiadau (Trwyddedu Teledu) 2004 (fel y'i diwygiwyd) mae gweithgarwch trwyddedadwy yn golygu defnyddio neu osod unrhyw ddyfais i:
 - a) wyllo neu recordio'n fyw unrhyw raglen sydd wedi'i chynnwys mewn unrhyw wasanaeth rhaglenni teledu (e.e. sianel deledu neu wasanaeth teledu ar-lein), neu;
 - b) gwyllo neu lawrlwytho unrhyw un o raglenni'r BBC ar-alw ar BBC iPlayer.

Nid yw gwyllo neu recordio "yn fyw" yn cyfeirio at ddarllediad byw yn unig e.e. chwaraeon neu newyddion. Mae hefyd yn cyfeirio at unrhyw gynnwys pan gaiff ei ddarlledu neu ei drosglwyddo i bawb ei wyllo ar yr un pryd. Mae hyn yn berthnasol beth bynnag fo'r llwyfan neu'r darparwr (e.e. Freeview, Sky, Virgin Media, BT TV, neu wasanaeth fel iPlayer, Amazon Prime Video neu YouTube). Mae hyn yn cynnwys rhaglenni lloeren neu rai a ffrydir ar-lein o du allan i'r DU neu Ynysoedd y Sianel, fel digwyddiadau chwaraeon a sioeau tramor.

Nid yw gweithgareddau trwyddedadwy yn cynnwys:

- c) gwyllo rhaglenni ar gyfryngau wedi'u recordio ymlaen llaw fel DVD a Blu-ray;

- d) lawrlwytho neu wyllo teledu S4C ar-alw ar BBC iPlayer neu wrando ar raglenni radio ar BBC iPlayer;
- e) lawrlwytho neu wyllo rhaglenni ar-alw gan ddarparwyr eraill, fel:
- ITVx, All 4 neu Demand 5
 - Virgin Media neu Sky Go
 - Netflix neu Now TV
 - Apple, Roku neu Amazon
- 3.1 **NLC** – mae cyfeiriad preswyl yn cael ei gategoreiddio fel Hawliad Dim Angen Trwydded (NLC) pan fydd TV Licensing yn cael datganiad llafar neu ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) nad yw offer derbyn teledu yn y cyfeiriad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch trwyddedadwy.
- 3.2 **NLCC** – mae cyfeiriad preswyl yn cael ei gategoreiddio fel Hawliad Dim Angen Trwydded wedi'i Gadarnhau (NLCC) yn dilyn ymweliad lle mae'r Swyddog Ymweld wedi gwirio nad yw offer derbyn teledu yn y cyfeiriad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch trwyddedadwy.
- 3.3 **NLSG** – mae cyfeiriad preswyl yn cael ei gategoreiddio fel Hawliad Dim Angen Trwydded Gwarchodaeth Cyfnod Byr (NLSG) pan fydd TV Licensing yn derbyn hawliad Dim Angen Trwydded ac yn cael gwybod bod yr unigolyn neu'r meddiannydd yn bwriadu peidio â defnyddio offer derbyn teledu ar gyfer gweithgarwch trwyddedadwy yn y cyfeiriad am gyfnod llai na blwyddyn.¹
- 3.4 **BNLC** – mae cyfeiriad amhreswyl yn cael ei gategoreiddio fel Hawliad Busnes Dim Angen Trwydded (BNLC) pan fydd TV Licensing yn cael datganiad llafar neu ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) nad yw offer derbyn teledu yn y cyfeiriad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch trwyddedadwy.
- 3.5 **BNLCC** – mae cyfeiriad amhreswyl yn cael ei gategoreiddio fel Hawliad Busnes Dim Angen Trwydded wedi'i Gadarnhau (BNLCC) yn dilyn ymweliad lle mae'r Swyddog Ymweld wedi gwirio nad yw offer derbyn teledu yn y cyfeiriad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch trwyddedadwy.
- 3.6 **NLE** – mae cyfeiriad (preswyl neu amhreswyl) yn cael ei gategoreiddio fel Dim Angen Trwydded Wedi Dod i Ben pan fydd Hawliad Dim Angen Trwydded (neu Hawliad Dim Angen Trwydded wedi'i Gadarnhau) wedi dod i ben. Mae hwn yn ddosbarthiad mewrol sydd wedi'i ddylunio i ddarparu hanes llawn y cyfeiriad ar gyfer tîm Gweithrediadau Maes TV Licensing yn unig.
- 3.7 **Lle** – mae'n cyfeirio at le trwyddedadwy, fel y'i diffinnir ym Mholisi Lleoedd Trwyddedadwy'r BBC.
- 3.8 **Meddiannydd** – yn cynnwys preswylwyr domestig a chynrychiolwyr eiddo amhreswyl (e.e. rheolwr busnes).
- 4 Egwyddorion Cyffredinol**
- 4.1 Bydd cyfeiriadau sy'n hawlio Dim Angen Trwydded yn cael eu trin yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y polisi hwn. Mae gan y BBC ddyletswydd dan Ddeddf

¹ Sylwch mai dim ond i gyfeiriadau preswyl ac nid i gyfeiriadau amhreswyl y mae'r amgylchiad hwn yn berthnasol. Yn ymarferol, mae'n fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i lety myfyrwyr.

Cyfathrebiadau 2003 i orfodi'r system Trwyddedu Teledu. O ganlyniad, mae'r rhesymeg y tu ôl i waith TV Licensing yn monitro Hawliadau Dim Angen Trwydded preswyl yn seiliedig ar y ffaith bod ffigurau gan Fwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd y Darlledwyr (BARB) yn dangos bod canran y cartrefi yn y DU sydd â theledu yn tua 95%.²

- 4.2 Yn unol â'r rhwymedigaethau a amlinellir uchod, mae TV Licensing yn cadw'r hawl i ymweld â chyfeiriadau sydd wedi hawlio Dim Angen Trwydded. Y rheswm am hyn yw, er bod y rhan fwyaf o hawliadau Dim Angen Trwydded sy'n cael eu derbyn gan TV Licensing yn rhai dilys, mae pobl weithiau'n rhoi gwybod i TV Licensing nad oes angen trwydded arnynt pan fydd angen trwydded arnynt.
- 4.3 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a gellir ei addasu ar ôl derbyn tystiolaeth addas ar gyfer newid.

5. Prosesu datganiadau

- 5.1 Amlinellir proses bolisi TV Licensing ar gyfer delio â hawliadau Dim Angen Trwydded yn **Atodiad I**.
- 5.2 Ar ôl i unigolyn wneud hawliad Dim Angen Trwydded i TV Licensing, anfonir cydnabyddiaeth ysgrifenedig ac esboniad o'r broses NLC at yr unigolyn. Rhoddir statws NLC i'r cyfeiriad, bydd llythyrau i'r cyfeiriad yn dod i ben am gyfnod penodol a bydd yr adeilad ar gael i ymweld ag ef er mwyn cadarnhau nad oes angen trwydded.

6. Cyfeiriadau ymweld

- 6.1 Bydd TV Licensing yn ymweld â sampl o gyfeiriadau NLC i gadarnhau nad oes angen trwydded. Defnyddir methodoleg i benderfynu pa gyfeiriadau fydd yn ffurfio'r sampl ar gyfer ymweld. Amlinellir y fethodoleg hon yn **Atodiad II**.³
- 6.2 Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau bydd cyfeiriadau NLC yn cael eu heithrio'n benodol o'r sampl ar gyfer ymweld, er mwyn bod yn deg. Nodir yr amgylchiadau hyn yn **Atodiad III**. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd unrhyw gadarnhad ar ôl i warchodaeth NLC ddod i ben bod yr amgylchiadau perthnasol yn aros yr un fath yn arwain yn syml at gynnal y warchodaeth NLC a bydd y cyfeiriad yn aros o fewn yr eithriadau rhag ymweld.
- 6.3 Efallai y bydd ymweliad Dim Angen Trwydded yn arwain at amrywiaeth o ganlyniadau. Ceir rhestr o'r canlyniadau hyn yn **Atodiad IV**.

7. Gwarchodaeth

- 7.1 Mae'r hydroedd gwarchodaeth breswyl perthnasol fel a ganlyn:
- NLC – Tua un flwyddyn o'r dyddiad pan ddigwyddodd yr ymweliad.

² Arolwg Sefydliad BARB – Adroddiad Rhwydwaith Blyneddol Mawrth 2020.

³ Mae'r fethodoleg hon yn gyfrinachol. Nid yw i'w ryddhau i'r cyhoedd, gan y byddai unrhyw ddatgeliad ynddo'i hun yn tanseilio effaith ataliol strategaeth orfodi TV Licensing.

- Ar gyfer gwarchodaethau NLN sy'n bodoli eisoes pan wnaed newid i'r polisi hwn, bydd cyfnod NLN o flwyddyn yn cael ei gyflwyno pan ailddatganir neu pan gyflwynir cais newydd dilynol.
- NLCC – Oddeutu⁴ un flwyddyn o ddyddiad yr ymweliad.
 - NLSG – Unrhyw gyfnod hyd at oddeutu⁵ blwyddyn o'r dyddiad y cofnodwyd yr hawliad.
- 7.2 Pan fydd gwarchodaeth NLCC yn dod i ben, bydd cadarnhad bod yr amgylchiadau'n aros yr un fath yn arwain at y cyfeiriad yn dychwelyd i statws NLC ac ar gael ar gyfer ymweliad pellach. Pan fydd unrhyw warchodaeth yn dod i ben, bydd TV Licensing yn cadw categori "Dim Angen Trwydded wedi Dod i Ben" ar ei gronfa ddata er mwyn darparu hanes llawn i dîm Gweithrediadau Maes TV Licensing.
- 7.3 Barn y BBC yw bod un flwyddyn yn rhesymol ar gyfer gwarchodaeth breswyl, o ystyried bod amgylchiadau preswyl yn newid yn aml. Er enghraifft, gall meddianwyr symud tŷ neu newid eu harferion gwyllo fel bod angen trwydded.
- 7.4 Mae'r hydroedd gwarchodaeth amhreswyl perthnasol fel a ganlyn:
- BNLC – Oddeutu⁶ tair blynedd o'r dyddiad y cofnodwyd yr hawliad.
 - BNLCC – Oddeutu⁷ tair blynedd o ddyddiad yr ymweliad.
- 7.5 Barn y BBC yw y dylai cyfeiriadau amhreswyl gael gwarchodaeth hirach oherwydd eu bod yn debygol o newid eu statws o ran derbyn rhaglenni teledu yn llai aml na chyfeiriadau preswyl. Mae TV Licensing hefyd yn fwy tebygol o gael data allanol rheolaidd ar gyfer cyfeiriadau amhreswyl sy'n rhoi gwybod iddynt am newid statws.⁸ Felly, lle nad yw hyn wedi digwydd, gellir yn haws tybio na fu unrhyw newid mewn statws o ran derbyn rhaglenni teledu.
- 7.6 Mae'r hydroedd gwarchodaeth cyfnod byr perthnasol fel a ganlyn:
- Cyfeiriadau myfyrwyr - hyd at naw mis.
 - Cyfeiriadau nad ydynt yn rhai myfyrwyr - yn dibynnu ar y wybodaeth a wirfoddolwyd gan y meddiannydd, hyd at flwyddyn.
- 7.7 Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o warchodaeth cyfnod byr yn ymwneud â chyfeiriadau myfyrwyr. Gellir ond eu cymhwyso i gyfeiriadau nad ydynt yn rhai myfyrwyr os yw'r deiliad wedi rhoi gwybod i TV Licensing ei fod yn bwriadu meddiannu'r eiddo am lai na blwyddyn.

⁴ Dywedwn 'oddeutu' gan ein bod yn ysgrifennu i wirio statws trwyddedu cyfeiriad ychydig yn gynharach, er mwyn rhoi digon o amser i'r cwsmer ymateb.

⁵ Fel y nodir yn nhroednodyn 4 uchod.

⁶ Fel y nodir yn nhroednodyn 4 uchod.

⁷ Fel y nodir yn nhroednodyn 4 uchod.

⁸ Er enghraifft, pan fydd busnes yn newid enw a'r Ffeil Cyfeiriad Post sydd wedi'i chysylltu ag ef yn newid yn gyfatebol; bydd TV Licensing yn cael gwybod am yr amgylchiadau hyn.

8. Newidiadau mewn Statws Hawliadau Dim Angen Trwydded (gan gynnwys trosglwyddo Hawliad Dim Angen Trwydded i gyfeiriad newydd).

8.1 Gall statws cyfeiriad NLC/NLCC newid neu gael ei ailwirio gyda chwsmeriaid yn yr amgylchiadau canlynol:

Sbardun	Newid
Ymweliad	Gweler Atodiad IV .
Prynu Trwydded Deledu.	Mae Cyfeiriad yn colli statws NLC/NLCC ac yn dychwelyd i gylchoedd postio safonol. ⁹
Wedi cael gwybod am feddiannydd newydd yn y cyfeiriad sydd wedi cael statws NLC/NLCC o'r blaen. ¹⁰	Cyfeiriad naill ai: (a) Yn colli statws NLC/NLCC ac yn dychwelyd i gylchoedd postio safonol (neu i ddechrau cylch NLC os yw'r meddiannydd newydd yn hawlio NLC). NEU (b) Derbyn cais i ail-gadarnhau statws NLN gan y meddiannydd presennol neu hawliad NLN newydd gan y meddiannydd newydd.
Cwsmer yn newid cyfeiriad.	Ail-ategir statws NLN (hyd gwarchodaeth) sy'n ailgychwyn y broses NLN (gweler 8.3).
Derbyniwyd data BBC neu drydydd parti, sy'n dangos i TV Licensing bod gofynion trwyddedu wedi newid.	Mae'r cyfeiriad yn cael cais (gan TVL) i ail-gadarnhau'r statws NLN (os yw'r meddiannydd yr un fath) neu i gadarnhau ei ofynion trwyddedu os yw'n feddiannydd newydd.
Rhoi gwybod i gwsmeriaid am newid yn y gofynion trwyddedu (mae bellach angen trwydded).	Dileu NLN – sylwch mai dim ond os oes gan y cwsmer yr un enw y bydd hyn yn digwydd.
Yn ystod y cyfnod gwarchodaeth, gallai amgylchiadau pobl, eu harferion gwyllo neu weithgarwch trwyddedadwy newid.	Mae'r cyfeiriad yn cael cyswllt gan TV Licensing cyn diwedd y cyfnod gwarchod arferol.
Mae'r ffordd y mae gweithgarwch trwyddedadwy'n cael ei ddarparu yn newid yn barhaus ac efallai na fydd unigolion bob amser yn ymwybodol bod angen trwydded. Er enghraifft, byddai angen trwydded i wyllo digwyddiadau chwaraeon byw ar Amazon Prime Video.	Mae'r cyfeiriad yn cael cyswllt gan TV Licensing cyn diwedd y cyfnod gwarchod arferol er mwyn gwneud y preswlydd yn ymwybodol o'r angen am drwydded yng nghyd-destun mwy o ddarparwyr yn cynnig cynnwys trwyddedadwy.
Newid i bolisi NLN y BBC.	Gallai cyfeiriadau NLC/NLCC dderbyn cais i gadarnhau statws.

⁹ Ym mis Medi 2016. Efallai y bydd eithriadau i hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

¹⁰ Bydd enghreifftiau o hysbysiadau o'r fath yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): cyswllt â meddiannydd newydd, derbyn "post wedi'i ddychwelyd methu â danfon" neu gadarnhad o ffynhonnell trydydd parti arall fel y gofrestr etholiadol wedi'i golygu.

- 8.2 Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd TV Licensing yn cadw categori "Dim Angen Trwydded wedi Dod i Ben" ar ei gronfa ddata er mwyn darparu hanes llawn i dîm Gweithrediadau Maes TV Licensing.
- 8.3 Os bydd meddiannydd yr eiddo yn rhoi gwybod i TV Licensing eu bod wedi symud, bydd Hawliad Dim Angen Trwydded yn cael ei drosglwyddo i'r cyfeiriad newydd. Mae hyn yr un mor wir am eiddo preswyl a busnes. Am resymau ymarferol, bydd y warchodaeth yn cael ei hail-gadarnhau, gan warchod y cyfeiriad newydd rhag gohebiaeth bellach fel y cyfarwyddir yn adran 7.1. Ar gyfer eiddo preswyl ac ar gyfer adeiladau busnes, bydd am gyfnod llawn o dair blynedd, fel sy'n berthnasol.
- 8.4 Yn achos yr adeiladau hynny a restrir fel NLCC neu BNLCC ar gronfa ddata TV Licensing (h.y. lle mae ymweliad wedi cadarnhau dilysrwydd yr Hawliad Dim Angen Trwydded), bydd y statws hwnnw'n cael ei gadw yn y cyfeiriad newydd, a bydd y meddiannydd felly'n parhau i gael eu hamddiffyn rhag y posibilrwydd o ymweliad pellach *yn ogystal* â llythyrau nes bydd eu statws yn dychwelyd i statws heb drwydded ar ddiwedd cyfnod y warchodaeth; fodd bynnag, efallai y derbynnir gohebiaeth cyn i'r cyfnod NLN ddod i ben.

9. Gweithdrefnau Canfod a Gwarantau Chwilio

- 9.1 Defnyddir gwarantau canfod a chwilio fel dewis olaf.
- 9.2 Bydd y gwaith canfod yn cael ei wneud yn unol â Pholisi'r BBC ar Awdurdodi a Gweithredu Offer Canfod dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Gweithredir gwarantau chwilio yn unol â pholisi gwarantau chwilio Capita.

Nodyn: Mae Atodiadau I-IV y ddogfen hon wedi cael eu golygu gan fod y wybodaeth wedi'i heithrio o dan adrannau 31(1)(a), (b), (d) a (g) a (2)(a) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith, yn benodol y byddai datgelu, neu y byddai datgelu'n debygol o effeithio ar atal neu ganfod troseddau, dal neu erlyn troseddwr, casglu ffi'r drwydded a gallu'r BBC i gyflawni ei swyddogaethau cyhoeddus mewn perthynas â materion o'r fath. Y rheswm am hyn yw eu bod yn cynnwys gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i bobl sy'n ceisio osgoi talu ffi'r drwydded.

